



Fframwaith
Dangosyddion
Integreiddio
2019 y Swyddfa
Gartref

Rhoi Theori
Newid ar Waith

**Nodiadau
canllaw**

Rhan B

Mai 2019



© Hawffraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth fel hawffraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawffraint dan sylw.

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Sut i ddefnyddio'r Theori Newid ar gyfer Integreiddio	6
Casglu data a thystiolaeth ar gyfer gwerthuso	13
Cyfeiriadau	19
Atodiad 1: Cynllunio gwerthuso	20
Atodiad 2: Casgliad o Ddangosyddion Canlyniadau Integreiddio	22
Atodiad 3: Trosolwg o'r ffynonellau data ar gael	27



Cyflwyniad

Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon (Rhan B) yw arwain ymarferwyr a sefydliadau wrth ddefnyddio fframwaith Theori Newid (TOC) ar gyfer Integreiddio a datblygu eu theorïau newid eu hunain ar gyfer rhaglenni a strategaethau. Gall y canllaw hwn fod yn ddefnyddiol yn enwedig i sefydliadau llai gydag ychydig iawn o adnoddau, elusennau a llywodraeth leol.

Dangosa Theori Newid ar gyfer Integreiddiad a gyflwynwyd yn Rhan A o'r canllawiau hyn sut y rhagwelir newid dymunol. Mae Rhan B o'r canllawiau yn cyfuno theori ac ymarfer ac yn darparu adnodd ymarferol yn atodiad 1. Yn ogystal ag enghreifftiau ymarferol a geir yn Rhan A, mae'r adran hon yn darparu cyngor pellach ar gyfer defnyddio Theori Newid fel methodoleg i helpu i ddylunio, mesur effaith, a gwerthuso prosiect. Gall sefydliadau ddewis cyfeirio eu Theori Newid at y Theori Newid ar gyfer Integreiddio lefel uchel.

Cyfeiria'r canllawiau hyn at ddau gysyniad arall yn yr adnoddau cysylltiedig:

- Y Fframwaith Dangosyddion Integreiddio (IOI) sy'n amlinellu 14 dangosydd integreiddio yn adroddiad y Swyddfa Gartref (2019a).
- Canlyniadau Unigol Dangosyddion Integreiddio lle daw pob un o'r 14 dangosydd integreiddio â dangosyddion canlyniadau unigol ar gyfer mesur. Cefnogir y rhan fwyaf o'r dangosyddion gan gwestiynau ar gyfer casglu data ac offer, e.e. cyfweiliadau ac arolygon, a gafwyd o'r data swyddogol a'r ystadegau gwladol cyfredol (2019b).

Sut i ddefnyddio'r Theori Newid ar gyfer Integreiddio

Mae pob Theori Newid yn dibynnu ar y cyd-destun, natur yr ymyriadau a barn y rhai hynny sy'n rhan o'i datblygu. Bydd pob sefydliad yn gweld sut y gall newid ddigwydd yn benodol yn eu cyd-destunau ac o fewn blaenoriaethau sefydliadol. Felly, mae asiantaethau gweithredu yn fwy tebygol o fod angen Theoriau Newid mwy manwl i gefnogi eu prosesau penderfynu, gweithredu, monitro a gwerthuso, a rheoli rhaglenni.

Dylunio prosiect

Gellir defnyddio'r Theori Newid ar gyfer Integreiddio a'r dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys y Fframwaith Dangosyddion Integreiddio (Y Swyddfa Gartref, 2019a) i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglenni a phrosiectau.

Gall Theori Newid helpu i ddeall sut y bydd gweithgareddau a fwriadwyd yn cefnogi integreiddio ac yn datblygu rhagdybiaethau (damcaniaethau) ynglŷn â sut y bydd prosiect yn gweithio. Gall Theori Newid helpu i adnabod canlyniadau ac allbynnau ar gyfer mesur effaith a gwerthuso. Efallai y bydd angen diagram Theori Newid cymhleth neu syml, yn dibynnu ar natur y rhaglen y mae wedi ei ddylunio ar ei chyfer a lefel y manylder.

I adeiladu Theori Newid, mae'n fuddiol cynnal gweithdy gyda phobl sy'n rhan o'r rhaglen gan gynnwys staff, ymddiriedolwyr, buddiolwyr, partneriaid, cyllidwyr a rhanddeiliaid defnyddiol eraill. Dylid cynnal dadansoddiad o'r cyd-destun (e.e. dadansoddiad sefyllfaol¹) ac ymchwil ynghylch eich dadansoddiad cyn cynnal gweithdy cynllunio.

I ddechrau creu eich Theori Newid, ymatebwch i'r cwestiynau canlynol:

Effaith

- Beth yw nod cyffredinol eich rhaglen a phwy yw'r bobl y mae eich rhaglen yn anelu at eu cyrraedd?

Cyngor:

Gall parthau integreiddio eich helpu i ddiffinio maes/meysydd eich nod dymunol ar gyfer y rhaglen. Dylai datganiad effaith ddisgrifio pa wahaniaeth tymor hir yr ydych yn dymuno ei weld yn digwydd. Gellir lleoli datganiad effaith mewn cyd-destun ehangach a chysylltu gwaith prosiect â blaenoriaethau ehangach.

Yn y cam nesaf, gweithiwch yn ôl gan feddwl am y newidiadau sydd angen digwydd i gyflawni'r effaith a ddymunir.

Canlyniadau


Canlyniadau yw'r newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'ch gwaith. Maent yn disgrifio'r newidiadau yr ydych yn dymuno eu creu, nid y gwaith sydd angen ei wneud.

- Pa ganlyniadau fyddai angen digwydd i helpu i gyflawni'r nod hwn?
- Pa ganlyniadau ydych chi am eu gweld?

Cyngor:

Dylai pob canlyniad gynnwys syniad mesuradwy. Mae Theori Newid ar gyfer Integreiddio yn cyflwyno rhai enghreifftiau o ganlyniadau. Mae canlyniadau penodol yn well na rhai cymhleth.

¹ Mae dadansoddiad sefyllfaol yn ymwneud â'r broses o asesu sefyllfa gymhleth o fewn cyd-destun ehangach, casglu gwybodaeth, adnabod materion, galluedd ac anghenion allweddol y boblogaeth fudol er mwyn llywio prosesau cynllunio ymyriadau mewn modd integredig a systematig.



Gweler Tabl 1 ar gyfer rhestr o newidiadau a ystyrir fel arfer ar lefel canlyniadau.

Yn ystod y cam hwn, mae'n bwysig diffinio rhagdybiaethau, sef y ddamcaniaeth y tu ôl i'ch credoau ynglŷn â sut y gall newid ddigwydd.

Rhagdybiaethau

- Pa ragdybiaethau ydych chi wedi eu gwneud ynglŷn â sut y bydd canlyniadau yn cael eu cyflawni?

Beth yw'r ffactorau cyd-destunol ac amgylcheddol a all effeithio ar gyflawni canlyniadau?

Cyngor:

Bydd rhagdybiaethau yn helpu i adnabod rhai ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo a dylai'r rhain siapio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'n ddefnyddiol seilio rhagdybiaethau ar lenyddiaeth, ymarfer a gwybodaeth arbenigol sydd eisoes yn bodoli. Gellir eu profi fel rhan o werthusiad prosiect. Gweler Rhagdybiaethau (damcaniaethau) ar dudalen 5.

Unwaith y byddwch wedi diffinio eich canlyniadau a rhagdybiaethau, meddyliwch am ba newid, fel allbwn, y byddai'n ofynnol i'w wneud cyn y gall canlyniad ddigwydd.


Allbynnau

Ar y pwynt hwn, ystyriwch pa allbynnau sy'n angenrheidiol i sicrhau'r canlyniadau dymunol.

- Pa allbynnau o weithgareddau, gwasanaethau a chynhyrchion, y byddwch yn eu darparu, sy'n ofynnol i helpu i gyflawni'r canlyniadau?

Cyngor:

Gall allbynnau yn y Theori Newid ar gyfer Integreiddio lywio a'ch helpu i addasu neu ddiffinio eich allbynnau prosiect. Os ydych yn creu Theori Newid ar gyfer prosiect presennol, cofiwch gynnwys eich allbynnau a gweithgareddau presennol. Ewch ati i gynnwys gwaith ar allbynnau ar y cyd â sefydliadau a gwasanaethau eraill.



Gweler Tabl 1 ar gyfer rhestr o newidiadau a ystyrir fel arfer ar lefel allbynnau.

Mentrau

I gyflawni allbynnau prosiect, ystyriwch pa fentrau prosiect sy'n ofynnol. Dylai pob menter gyd-fynd â'ch canlyniadau/allbynnau a dangosyddion prosiect penodedig.

- Pa fentrau fyddai angen digwydd i helpu i gyflawni'r canlyniadau?

Cyngor:

Bydd mentrau yn arwain at allbynnau, a bydd allbynnau yn sicrhau canlyniadau.

Gweithgareddau

Yn olaf, ystyriwch pa weithgareddau fydd eich rhaglen yn eu gwneud i roi'r mentrau ar waith.

Beth yw'r gweithredoedd a'r tasgau y bydd prosiect neu sefydliad yn eu cynnal?

Cyngor:

Ystyriwch beth sydd angen ei wneud i roi mentrau ar waith. Clustnodwch gyfrifoldebau i weithredoedd a thasgau penodol. Diffiniwch derfynau amser a monitwch gynnydd yn rheolaidd.

Rhestr wirio gyffredinol:


- A yw'r Theori Newid yn gwneud synnwyr fel ymateb i'r dadansoddiad o'r cyd-destun, y broblem a'r newidiadau sy'n ofynnol?
- Os nad yw'n gwneud synnwyr, a oes dadansoddiad pellach o'r cyd-destun a'r broblem wedi ei gynllunio i bennu pa ymyrraeth sy'n ofynnol?

- A yw'r Theori Newid yn ddigon clir?

Cynghorion:

Dylai'r Theori Newid fod yn glir. Osgowch flychau gorlawn sy'n cynnwys sawl allbwn a chanlyniad. Cyflwynwch fanylion penodol nid gwybodaeth gyffredinol am y prosiect yn unig. Amlygwch broses newid gymhleth ar sail ymchwil. Ymhelaethwch ar gysylltiadau yn fanwl.

Mewn geiriau eraill, cefnogir newidiadau tymor hir (effaith) gan newidiadau tymor canolig (canlyniadau), sy'n seiliedig ar newidiadau tymor byr (allbynnau) sydd fel rheol yn cael eu cyflawni o ganlyniad i weithgareddau a wneir.



Mae Tabl 1 yn cyflwyno enghreifftiau o ganlyniadau posibl ar lefelau amrywiol o fframwaith rhesymegol y prosiect a all lywio'r gwaith o gynllunio Theori Newid. Mewn termau syml, mae gweithgareddau yn arwain at allbynnau, allbynnau at ganlyniadau a chanlyniadau at effaith.



Tabl 1: Newidiadau ar wahanol lefelau o ganlyniadau disgwylledig

<p>EFFAITH</p> <p>Newidiadau tymor hirach</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sefyllfa (tai, cyflogaeth etc.) • Cymdeithasol • Diwylliannol 	<ul style="list-style-type: none"> • Economaidd • Gwleidyddol • Amgylcheddol • Cymdeithas sifil
<p>CANLYNIAD</p> <p>Bydd newidiadau tymor canolig yn arwain at effaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Lles • Ymddygiad • Gweithredu cymdeithasol • Gwneud penderfyniadau • Polisi • Ymarfer 	<ul style="list-style-type: none"> • Normau cymdeithasol • Effeithlonrwydd • Effeithiolrwydd • Cymwyseddau • Gwasanaethau • Partneriaethau
<p>ALLBYNNAU</p> <p>Bydd newidiadau tymor byr yn arwain at ganlyniadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymwybyddiaeth • Gwybodaeth • Barn • Galluoedd • Sgiliau • Profiadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Teimladau • Agweddau • Dyheadau • Cymhelliant • Prosesau • Mynediad
<p>GWEITHGAREDDAU</p> <p>Bydd y rhain yn arwain at allbynnau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnu gweithdai • Cyfarfodydd • Hyfforddi • Gwerthuso • Cynlluniau gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> • Hwyluso • Ymgysylltu â'r cyfryngau • Caffael • Recriwtio • Ymgysylltu

Rhagdybiaethau (damcaniaethau)

Mae rhagdybiaethau yn egluro sut mae mentrau, canlyniadau ac effaith prosiect yn cysylltu. Bydd cryfder y rhagdybiaeth yn dibynnu ar ansawdd y dystiolaeth a gefnogir gan ymchwil. Yn yr un modd, fel yr eglura Theori Newid pam y gall integreiddio weithio, mae'r rhagdybiaethau mewn unrhyw ymyrraeth yn egluro pam fod sefydliad yn credu y gall ymyrraeth weithio. Felly, mae'n bwysig lleisio damcaniaethau newid yn glir.

Cynghorion:

- Casglwch ddata cadarn a thystiolaeth o ansawdd o ffynonellau adnabyddus i lywio eich datganiadau o ragdybiaeth.
- Pennwch ragdybiaethau ar ddechrau'r asesiad o'r angen i fwyo i mewn i ddyluniad y prosiect ac astudiaethau sylfaenol i sicrhau'r rhesymeg gyffredinol a digonolrwydd yr ymyrraeth.
- Gwirwch gryfder y dystiolaeth a asesir ar gyfer pob damcaniaeth.

- Po gryfaf y sylfaen dystiolaeth, y mwyaf tebygol ydyw y bydd rhagdybiaethau yn arddangos y cysylltiadau rhwng canlyniadau prosiect.
- Gall rhagdybiaethau helpu i gasglu tystiolaeth ar achosiaeth.
- Adnabyddwch gyfyngiadau eich rhagdybiaethau neu dystiolaeth mewn perthynas â'r data sydd ar gael.
- Profwch sut mae rhagdybiaethau yn gweithio drwy fonitro, gwerthuso a dysgu parhaus.
- Os oes gan ragdybiaethau sylfaen dystiolaeth wan, gwiriwch nhw mewn gwerthusiad drwy ffurfio cwestiynau wedi eu hanelu at wirio'r rhagdybiaethau.
- Cofnodwch ragdybiaethau yn rheolaidd i helpu i adolygu ac addasu canlyniadau prosiect, wrth i sefydliad ddysgu beth sy'n gweithio neu wrth i ymchwil newydd gael ei gyhoeddi.

Enghraifft o ragdybiaeth:

Rhagdybir y bydd gan ffoaduriaid a mewnfudwyr iechyd da pan fyddant yn cael mynediad at wasanaethau meddygol, os hunangofnodir iechyd da a rhoddir mynediad iddynt at wasanaethau arbenigol y GIG; fodd bynnag posibilrwydd yn unig fyddai hyn o ystyried eglurder y rhagdybiaethau a wnaed i ddechrau arni.

Rhestr wirio:

A yw rhagdybiaethau yn glir yn y diagram neu'r testun am y cysylltiadau achosol, camau gweithredu a chyd-destun, a ffactorau allanol?

A yw'r llwybrau achosol yn glir yn y diagram?

A oes yna asesiad naratif o'r dystiolaeth ar gyfer pob damcaniaeth allweddol?

Rhai pwyntiau i'w hystyried:

Gall yr amgylchedd lle mae eich prosiect yn gweithredu ynddo newid.

Lle nad yw'n bosibl sefydlu'r gwrthffeithiol yn y prosiectau, gall sefydliadau bach fonitro a gwerthuso eu rhagdybiaethau a defnyddio'r gwersi a ddysgir.

Mae'n ddefnyddiol dehongli canfyddiadau prosiect yng ngoleuni'r gwersi a ddysgir a diweddarau fframwaith prosiect er mwyn gwella effeithiolrwydd yr ymyriadau.

Mae bob amser yn ddefnyddiol dysgu o brofiadau ac arferion sefydliadau eraill a'r sector ehangach drwy adolygu adroddiadau gwerthuso a gwersi sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae adroddiadau o'r fath yn rhannu arferion da, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ar gyfer gwella.

Mae adolygu rhagdybiaethau ac addasu ymyriadau yn ymwneud â chanfod beth sy'n gweithio orau i gynorthwyo'n briodol y segmentau a dargedir o'r boblogaeth.

Mesur effaith

Mewn gwirionedd, mae hi'n anodd honni bod yr holl newidiadau yn ganlyniad i un ymyrraeth, lle mae gweithredwyr eraill yn bresennol. Cyfeirir yn aml at hyn fel 'y gwrthffeithiol'. Mae mesur newid yn cymryd amser ac yn ystod y cyfnod hwn mae gweithredwyr a ffactorau eraill yn cyfrannu at newidiadau tymor hwy. Er enghraifft, gall newidiadau yn y farchnad swyddi a pholisi'r llywodraeth effeithio ar newid.

I arddangos effaith, mae prosiect angen dangos tystiolaeth ar gyfer y rôl y mae wedi ei chwarae wrth wneud gwahaniaeth. Mae hyn yn cynnwys arddangos dealltwriaeth o sut mae sefydliadau eraill a ffactorau ehangach wedi creu newid yn y tymor hir, yn ogystal â sut y gallai newid fod wedi digwydd er gwaethaf cyfraniad y prosiect. Mae ymagwedd gadarn at werthuso a chasglu data yn ofynnol. Arfer da yw adeiladu Theori Newid yn gyntaf, gan y gall ddarparu fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso.

Gwerthuso prosiect

Unwaith y mae hi'n glir beth yw nod prosiect ac y datblygir y Theori Newid, mae sefydlu dangosyddion ar gyfer canlyniadau ac allbynnau yn y Theori Newid yn pennu fframwaith defnyddiol ar gyfer monitro a gwerthuso. Darperir arf ar gyfer cynllunio gwerthuso rhaglenni integreiddio gyda chyfeiriad at Theori Newid ar gyfer Integreiddio yn Atodiad 1.

Mae hi'n ofynnol i Theori Newid, hyd yn oed, gael dangosyddion sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni. Gwybodaeth benodol yw dangosyddion canlyniadau ac allbynnau y dylid ei chasglu i adrodd ar yr hyn y mae prosiect yn bwriadu ei gyflawni.

Dylid blaenoriaethu dangosyddion canlyniadau yn seiliedig ar yr hyn sy'n hanfodol yng ngwaith rhywun a beth all gynrychioli'r canlyniad terfynol a datgloi canlyniadau eraill. Mae dangosyddion canlyniadau yn olrhain y gwahaniaeth y mae eich prosiect yn ei wneud a faint o newid sy'n digwydd.

Mae **dangosyddion canlyniadau** yn tueddu i gasglu data tymor hir dros gyfnod hirach o amser. Mae hyn oherwydd bod canlyniadau, fel newidiadau tymor canolig, angen amser i ddigwydd. Gallai data tymor hir ddibynnu ar fonitro data swyddogol ac ystadegau gwladol dros amser neu ymgymryd ag astudiaethau hydredol annibynnol sy'n cyfuno casglu data parhaus gyda'r un grŵp targed a ymchwilir dros gyfnod o amser.

Dylai dangosyddion canlyniadau lywio datblygiad dulliau casglu data; er enghraifft, dylai cwestiynau neu bynciau arolwg ar gyfer trafodaethau grŵp ffocws gynnwys cwestiynau sy'n cysylltu'n uniongyrchol â dangosyddion canlyniadau, i helpu i'w mesur. Gallant gynnwys mesurau megis, 'lefel o', 'nifer o', 'math o' a 'pha mor aml'.

Cynghorion:

- Cyfunwch rifau (data meintiol) a disgrifiadau neu naratif (data ansoddol) i gael darlun gwell o beth sydd wedi newid.
- Cyfunwch wahanol safbwyntiau, dangosyddion goddrychol (e.e. canfyddiadau a barn pobl) a gwrthrychol (e.e. nifer y mynychwyr, canran o geisiadau etc.).
- Os ydych yn defnyddio graddfeydd neu ddulliau presennol, gallwch eu defnyddio fel dangosyddion.
- Cyfeiriwch at ddamcaniaeth â sylfaen dystiolaeth wan mewn cwestiynau gwerthuso.

- Dadgyfunwch y data a gesglir yn ôl rhyw, oed, ethnigrwydd, anabledd neu nodweddion hunaniaeth arwyddocaol eraill i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn gallu elwa o'r prosiect.
- Ystyriwch ddangosyddion penodol ar gyfer prosesau, e.e. gwaith tîm, cwmpas cyfarfodydd â sefydliadau eraill, lefel y cyswllt â'r cyfryngau.
- Sicrhewch fod y fframwaith monitro a gwerthuso wedi ei integreiddio â Theori Newid rhaglen.

Enghreifftiau o ddangosyddion canlyniadau:

Canlyniad	Dangosydd Canlyniadau
Mae cymunedau mudol a sefydlog yn gydlynol a diogel yn eu hardaloedd lleol	<ul style="list-style-type: none"> • % sy'n adrodd profiadau o aflonyddwch neu ddigwyddiadau hiliol, diwylliannol neu grefyddol • % sy'n adrodd troseddau casineb • % sy'n adrodd bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyddynnu'n dda yn eu hardal

Mae dangosyddion canlyniadau yn darparu gwybodaeth ynglŷn â pha allbynnau a ddarparwyd gan brosiect, pwy wnaeth elwa o'r allbynnau hyn a pha mor fodlon oedd y defnyddwyr.

Mae dangosyddion allbynnau yn tueddu i gasglu data tymor byr dros gyfnod byrrach o amser. Mae hyn yn bosibl fel rheol oherwydd bod allbynnau yn cynrychioli newidiadau tymor byr o ganlyniad i weithgareddau prosiect.

Cynghorion:

- Pennwch flaenoriaethau realistig ar gyfer mesur.
- Cyfyngwch y nifer o ddangosyddion allbynnau i'r rhai hanfodol.

Enghreifftiau o ddangosyddion allbynnau:

Allbwn	Dangosydd Allbynnau
Darperir sesiynau iaith Saesneg i ddarpar fewnfudwyr	<p>Nifer y sesiynau a ddarperir</p> <p>Nifer y bobl sy'n mynychu dosbarthiadau, wedi ei ddadgyfuno yn ôl rhyw, oed, ethnigrwydd, anabledd etc.</p> <p>Lefel o foddhad ymhlith defnyddwyr</p>

Addasu'r dangosyddion canlyniadau integreiddio

Gan fod canlyniadau ac allbynnau'r Theori Newid yn adlewyrchu canlyniadau unigol y dangosyddion integreiddio, gellir eu gwerthuso gan ddefnyddio'r mesurau hyn. Fodd bynnag, gall rhai meysydd ymyrraeth fwy arbenigol ddibynnu ar ganlyniadau unigol y dangosyddion integreiddio fel dangosyddion procsi neu gellir eu haddasu i ddangosyddion eraill sy'n benodol i'r rhaglen.

Darperir casgliad o Ganlyniadau Unigol Dangosyddion Integreiddio, y gall prosiect ei addasu i'w anghenion yn Atodiad 2.

Yn wir, gellir cysylltu'r rhan fwyaf o'r canlyniadau a'r allbynnau o'r model Theori Newid ar gyfer Integreiddio â'r dangosyddion canlyniadau penodol o'r Fframwaith Dangosyddion Integreiddio. Mae Tabl 2 yn rhoi enghraifft o sut y mae allbynnau o'r model Theori Newid ar gyfer Integreiddio yn adlewyrchu ac yn defnyddio dangosyddion canlyniadau unigol o'r Fframwaith Dangosyddion Integreiddio.

Tabl 2: Enghraifft o ddefnyddio dangosyddion canlyniadau integreiddio (Y Swyddfa Gartref, 2019b) ar gyfer mesur allbynnau Theori Newid. Maes: Cyflogaeth

Allbynnau mewn Theori Newid (addaswyd (fersiwn llawn))	Dangosyddion canlyniadau integreiddio a gafwyd yn uniongyrchol o'r Fframwaith Dangosyddion Integreiddio
Mynediad digonol at gyfleoedd llwybrau at waith (e.e. prentisiaethau, profiadau gwaith)	% sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni llwybrau at waith (e.e. prentisiaethau, profiadau gwaith, neu gynlluniau mentora/cysgodi)
Rhoddir hawl i ffoaduriaid a mewnfudwyr weithio	% (sy'n gymwys/gallu gweithio) mewn gwaith cyflogedig
Cyfleoedd cyflogaeth sy'n briodol i sgiliau a chymwysterau	% a gyflogir ar lefel briodol i sgiliau, cymwysterau a phrofiad % a gyflogir ar draws ystod amrywiol o sectorau cyflogaeth (sy'n gymesur â chymwysterau, sgiliau a phrofiad) Canfyddiadau o gyfleoedd cyflogaeth a rhwystrau i sicrhau cyflogaeth
Contractau cyflogaeth gwahanol ar gael i bawb	% sy'n dal mathau gwahanol o gontractau cyflogaeth (dim oriau, rhan amser; hunangyflogedig; dros dro etc.)
Mentrau dechrau busnesau newydd lleol ar gael i fewnfudwyr	% o unigolion (sy'n gymwys/gallu gweithio) sy'n defnyddio gwasanaethau mentrau dechrau busnes newydd lleol
Mae mewnfudwyr yn ennill y cyfartaledd blynyddol cenedlaethol	% sy'n ennill cyflog blynyddol yn gymesur â'r cyfartaledd cenedlaethol
Sicrwydd ariannol digonol o fewn y cartref	% o unigolion a/neu gartrefi sy'n annibynnol yn economaidd
Cyflogaeth sy'n rhoi boddhad digonol	% sy'n adrodd boddhad â'u cyflogaeth bresennol
Cyfranogiad digonol mewn cyflogaeth â thâl neu waith gwirfoddol	% mewn cyflogaeth â thâl neu waith gwirfoddol

Casglu data a thystiolaeth ar gyfer gwerthuso

Mae mathau gwahanol o dystiolaeth a all helpu i fesur effaith a gwerthuso prosiect. Bydd prosiectau yn aml yn defnyddio ystod o ffynonellau data gwahanol ar gyfer gwerthuso. Gall y rhain fod yn ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli ac a gesglir at ddibenion gwahanol (e.e. data cyrrhaeddiad disgyblion) neu ddata a gesglir yn benodol i werthuso'r prosiect (e.e. ffurflenni adborth neu arolygon pwrpasol).

Lle i ddod o hyd i ddata sydd ar gael?

Mae data swyddogol adrannau'r llywodraeth ac ystadegau gwladol ar gael ar-lein. Mae'r Pecyn Cymorth Dangosyddion Integreiddio yn cyflwyno'r ffynonellau data sydd ar gael yn erbyn pob Dangosydd Integreiddio (Atodiad 2). Gellir gofyn i awdurdodau lleol am ddata drwy Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p. 36) sy'n rhoi'r hawl i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus.

Cynghorion:

- Sefydlwch waelodlin i bennu man cychwyn y prosiect ac fel eich bod yn gallu dangos y cynnydd a wneir.
- Casglwch yr holl ddeunyddiau sydd gennych eisoes, megis y cynnig am y rhaglen, data ystadegol, adroddiadau ymchwil, adroddiad yn y wasg a chofnodion cyfarfodydd prosiect cychwynol etc.
- Casglwch yn rheolaidd gynlluniau gweithredu, cynlluniau gwaith y rhaglen, cofnodion, adroddiadau prosiect, cofnod o bresenoldeb mewn digwyddiadau prosiect a'r gwasanaethau a ddarperir.

Casglu tystiolaeth prosiect

I arddangos effaith prosiect, mae hi'n ofynnol casglu tystiolaeth a data penodol yn erbyn fframwaith monitro a gwerthuso'r prosiect. Dylid casglu mathau gwahanol o dystiolaeth ar gyfer gwerthuso, gan gynnwys:

- niferoedd (e.e. nifer y bobl sy'n elwa o'r prosiect, newidiadau yn lefelau troseddu, nifer y straeon yn y wasg, etc.);
- barn, canfyddiadau a phrofiadau pobl (e.e. astudiaethau achos o brofiadau pobl yn eich prosiect, lluniau, barn a theimladau pobl, e.e. teimlo'n ddiogel, teimlo eu bod yn cael eu parchu yn y gymuned etc.).

Tystiolaeth yw'r deunydd a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddangos bod eich prosiect wedi gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, mewn prosiect cydlyniant cymunedol, gallai tystiolaeth gynnwys gweld pobl o bob cwr o'r gymuned yn mynychu digwyddiadau a oedd yn y gorffennol mewn gwrthdaro, neu straeon yn cael eu cofnodi o sut y datryswyd gwrthdaro (Taylor et al., 2005). Gall barn pobl wahanol fod yr un mor bwysig â'r niferoedd a ddefnyddir i gofnodi newid.

Gellir casglu data gan ddefnyddio dulliau ymchwil traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol, er enghraifft drwy gyfweiliadau ffurfiol, mapio a data eilaidd; neu drwy grwpiau ffocws, cyfweiliadau anffurfiol ac arsylwi. Mae Tabl 3 yn rhoi trosolwg o ddulliau casglu data.

Gall sefydliadau llai neu sefydliadau â nifer cyfyngedig o adnoddau gynnal astudiaethau annibynnol ac ar raddfa lai gyda buddiolwyr y prosiect i ganfod lefel y cynnydd, y mae'n hanfodol casglu data sylfaenol ar ei gyfer yn gyntaf. Gall dulliau cyfranogol megis cyd-gynhyrchu² ac ymchwil gan gyfoedion³ helpu i gasglu data yn weddol rad. Yn ddelfrydol, dylid casglu data sylfaenol ar ddechrau prosiect, hanner ffordd, ac ar ddiwedd y prosiect er mwyn gallu cofnodi newid, cymharu canlyniadau ar y dechrau ac ar y diwedd a monitro cynnydd drwy gydol oes y prosiect.

2 Gyda chyd-gynhyrchu mae ymarferwyr, ymchwilwyr ac aelodau o'r gymuned yn cydweithio wrth greu gwybodaeth, rhannu pwerau a chyfrifoldebau.

3 Gydag ymchwil gan gyfoedion mae aelodau o'r cymunedau a ymchwilir yn dod yn ymchwilwyr gweithgar ac yn cyfweld eu grwpiau cyfoed.

Tabl 3: Dulliau o gasglu data ar gyfer gwerthuso

Dulliau o gasglu data	Mathau	Gweithdrefn	Dadansoddi
<p>Casglu data cynradd</p> <p>Dulliau ansoddol (geiriau, teimladau, emosiynau, synau)</p> <p>a</p> <p>Dulliau meintiol (yn seiliedig ar fathemateg megis cymedr, modd, canolrif)</p>	Cyfweliadau	<p>Gellir gofyn ac archwilio cwestiynau penodol; gellir casglu data manwl gyda chyfweliadau; gall cyfweliadau gael nifer llai o ymatebwyr</p> <p>Gellid recordio cyfweliadau gyda chaniatâd cyfranogwyr</p> <p>Ceisiwch siarad â phobl amrywiol i gael safbwyntiau gwahanol</p>	<p>Dylid cofnodi recordiadau clywedol ar bapur</p> <p>Darllenwch drwy gyfweliadau ac adnabyddwch syniadau cyffredin sy'n dod i'r fei</p>
	Thrafodaethau grwpiau ffocws	Trafodaethau grŵp gydag oddeutu 7 i 12 o bobl ar bynciau yr ydych yn dymuno eu harchwilio	Cymerir nodiadau yn ystod trafodaethau
	Arsylwadau	<p>Arsylwi pwy sy'n cyfrannu at gyfarfodydd neu sy'n defnyddio eich gwasanaethau a ph'un a yw hyn yn newid dros amser</p> <p>Dylid cymryd nodiadau</p> <p>Gellir ffilmio/tynnu lluniau o arsylwadau gyda chaniatâd</p>	Cymerir nodiadau yn ystod arsylwadau
	Holiaduron/ arolygon	<p>Gall cwestiynau fod yn benagored (yn seiliedig ar ateb yr ymatebwr) neu'n gaeedig (darparu atebion amlddewis i ymatebwyr ddewis o'u plith neu dicio blychau)</p> <p>Gall arolygon helpu i ddysgu am farn a phrofiadau defnyddwyr</p>	Gellid cyfrif ymatebion i gwestiynau er mwyn darganfod faint o bobl a atebodd cwestiwn penodol mewn ffordd benodol
	Ffurflenni adborth	<p>Casglu gwybodaeth ynglŷn â barn pobl am eich hyfforddiant a digwyddiadau eraill</p> <p>Dylai'r ffurflen fod yn fyr - gallai ofyn beth oedd fwyaf a lleiaf defnyddiol, beth y gellid ei wella</p>	Gellir dadansoddi ffurflenni adborth yn electronig neu gyda llaw
	Astudiaethau achos	Archwilio manylion cydrannau prosiect penodol a phrif amcanion	Dylid cofnodi straeon pobl
	Dyddiaduron	Gellid gofyn i gyfranogwyr y prosiect gadw dyddiaduron o'u rhan yn y prosiect	Dylai'r pytiau yn y dyddiaduron gynnwys dyddiadau, gweithgareddau a myfyrdodau

Enghreifftiau o dechnegau casglu data uwch (yn amodol ar argaeledd adnoddau)	Astudiaethau hydredol	Maent yn cynnwys nifer o arsylwadau o'r un grŵp o'r boblogaeth dros gyfnod o amser (weithiau rhai blynyddoedd)	Dylid cymharu'r data a gesglir o bryd i'w gilydd i sylwi ar newidiadau dros amser
	Astudiaethau lled-arbrofol	Astudiaethau empirig, gyda dyluniad arbrofol, i amcangyfrif effaith achosol prosiect ar y boblogaeth darged	Mae'n helpu gydag achosiaeth yn well na dulliau eraill, ond mae'n bosibl na fydd modd cymharu grwpiau targed o'r boblogaeth ar y waelodlin
	Astudiaethau trawstoriadol	Casglu data a chymharu grwpiau gwahanol o'r boblogaeth ar un amser penodol. Diffyg dealltwriaeth o'r berthynas rhwng achos ac effaith ffenomen gan nad yw'n edrych ar ddata cyn ac ar ôl casglu data	Mae'n galluogi cymharu nifer o amrywiadau gwahanol ar yr un pryd
Casglu data eilaidd	Data sydd eisoes wedi cael ei gasglu a'i gyhoeddi o ffynonellau ar-lein, cyfnodolion, llyfrau, a chyrrff anllywodraethol	Mae'n bosibl bod ffynonellau eilaidd wedi cael eu dylunio at ddibenion gwahanol, ond gall un fynd drwy'r data a chyfeirio at agweddau yn ymwneud â'i waith ymchwil a'u dadansoddi Mae data eilaidd yn haws i'w gael na data cynradd	Yn dibynnu ar sut y cesglir y data, gellir defnyddio meddalwedd arbenigol fel SPSS, STATA neu EXCEL os yw'r data yn feintiol

Samplu


Mae canlyniadau unrhyw ddata a gesglir yn dibynnu'n anochel ar y dulliau samplu a ddefnyddir. Mae'n bwysig rhoi sylw i ddewis y dull samplu cywir a all fod yn allweddol wrth liniaru tuedd mewn ymchwil. Mewn astudiaethau cymdeithasol, cydnabyddir dau fath o ddull samplu:

1. samplu nad yw ar hap sy'n cynnwys samplu cyfleus, samplu bwriadus, samplu pelen eira a samplu cwota;
2. samplu ar hap sy'n cynnwys samplu systematig, samplu ar hap, samplu haenedig a samplu cymhleth (Ffigwr 1).

Cynghorion:

- Sicrhewch fod y sampl mor amrywiol â'r boblogaeth ei hun.
- Gall samplu ar hap fod yn llai agored i duedd.
- Addaswch y samplu mewn dulliau gwerthuso yn ofalus i osgoi tuedd anfwriadol.
- Adnabyddwch fod gan samplu a lleoliadau casglu data gyfyngiadau o ran cynrychioldeb (gweler Tabl 4).

Figwr 1: Dulliau samplu a ddefnyddir mewn astudiaethau gwyddonol (addaswyd o Martínez-Mesa et al., 2016)



Wrth weithio o fewn cyfyngiad ar adnoddau, gall samplu helpu i astudio poblogaeth ardal ddaearyddol fwy neu helpu i ddysgu mwy am boblogaeth benodol mewn mwy o fanylder gan ddefnyddio sampl llai. Gall y ffordd y cynhelir samplu bennu unrhyw duedd neu amrywiaethau posibl yn y data, gan fod

aelodau o'r boblogaeth a dargedir yn fwy tebygol, efallai, o gael eu heithrio o'r sampl nag eraill. Er enghraifft, os defnyddir dull samplu pelen eira neu ddull samplu cyfleus i gasglu data, gall problem o ran cynrychioldeb y sampl ymddangos.

Tabl 4: Enghreifftiau o fframiau sampl a chyfyngiadau posibl o ran cynrychioldeb (Martínez-Mesa, 2016)

Fframiau sampl	Cyfyngiadau
Cyfrifiad poblogaeth	Os na chynhaliwyd y cyfrifiad yn y blynnyddoedd diweddar, gall ardaloedd â lefelau uchel o fewnfudo fod wedi dyddio
	Ni chynrychiolir y digartref na phobl sy'n teithio
Cofnodion ysbytai neu wasanaethau iechyd	Dim ond yn cynnwys data am bobl yr effeithir arnynt fel rheol
	Yn dibynnu ar y gwasanaeth, gall y data fod yn anghyflawn/neu fod wedi dyddio
	Os cafwyd y rhestrau o unedau cyhoeddus, gall canlyniadau fod yn wahanol i'r rhai sy'n ceisio gwasanaethau preifat
Rhestrau ysgolion	Dim ond yn y sector cyhoeddus y ceir rhestrau ysgolion ar hyn o bryd
	Ni chynrychiolir plant/plant yn eu harddegau nad ydynt yn mynychu'r ysgol
	Mae rhestrau yn dyddio'n gyflym
	Bydd problemau mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o absenoldeb o'r ysgol
Rhestr o rifau ffôn	Ni chynrychiolir sawl grŵp o'r boblogaeth: unigolion heb linell ffôn gartref (teuluoedd ar incwm isel, pobl ifanc sy'n defnyddio ffonau symudol yn unig), a'r rhai hynny sy'n treulio llai o amser gartref etc.
Rhestrau e-bost	Mae unigolion sydd â sawl cyfeiriad e-bost yn fwy tebygol o gael eu dewis nag unigolion gyda dim ond un cyfeiriad
	Gall unigolion sydd heb gyfeiriad e-bost fod yn wahanol i'r rhai hynny sydd ag un, o ran oedran, addysg etc.

Dilysu data

Mae'r math o ddata a gesglir yn hanfodol i ganlyniadau gwaith ymchwil. Gan fod canfyddiadau a chasgliadau ymchwil neu werthusiad yn dibynnu ar ansawdd y data a gesglir, argymhellir dilysu'r data gan ddefnyddio dulliau casglu data gwahanol a chan hynny cymharu'r canlyniadau a gesglir. Mewn ymchwil cymdeithasol gelwir proses o'r fath yn 'triogli' sy'n cyfuno dulliau casglu data meintiol ac ansoddol, er enghraifft arolygon, arsylwadau a chyfweliadau.⁴

Gall triogli gynnwys:

- y defnydd o sawl safbwynt yn y dadansoddiad o'r un data er mwyn deall yn well ffenomen dan sylw;
- arsylwyr neu gyfwelwyr lluosog a niwtral mewn astudiaeth benodol, er mwyn cael gwared ar duedd posibl a sicrhau dibynadwyedd y broses casglu a dadansoddi data;
- helpu i sicrhau canlyniadau ymchwil manwl gywir a dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng achos ac effaith drwy gynnal dadansoddiad cymharol o ddau neu ragor o ddehongliadau o ganlyniadau.

Os yw'r dehongliadau o ddulliau neu ffynonellau amrywiol yn gyson, gall un ddisgwyl canlyniadau cadarn o astudiaeth neu werthusiad penodol.

Darllen pellach

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO). Gwefan 'KnowHow' NCVO. Ar gael yn: <https://knowhow.ncvo.org.uk/organisation/impact> [cyrchwyd 03/04/2019]. Er enghraifft:

- 1) Choosing Your Collection Methods <https://knowhow.ncvo.org.uk/organisation/impact/measuring-your-impact/choosing-your-collection-methods-for-measuring-impact/choosing-the-right-collection-methods>
- 2) Evaluation and Impact Reporting <https://knowhow.ncvo.org.uk/organisation/impact/evaluation-and-impact-reporting-1>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2001) *A Practical Guide to Sampling*. Ar gael yn: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2001/06/SamplingGuide.pdf> [cyrchwyd 03/04/2019]

New Philanthropy Capital (2014) *Creating your theory of change – NPC's practical guide*. Ar gael yn: <https://www.thinknpc.org/resource-hub/creating-your-theory-of-change-npcs-practical-guide/> [cyrchwyd 03/04/2019]

Nesta (d.d.) *Guidance for Developing a Theory of Change for Your Programme*. Ar gael yn: https://media.nesta.org.uk/documents/theory_of_change_guidance_for_applicants_.pdf [cyrchwyd 03/04/2019]

⁴ Mae triogli methodolegol yn defnyddio dau neu ragor o ddulliau casglu data mewn astudiaeth o fewn un dull a rhwng dulliau, er enghraifft defnyddio strategaethau gwahanol wrth ddadansoddi data'r arolwg i sicrhau lefel o gydgyfeiriant yn y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Cyfeiriadau

- Financial Capability (d.d.) *Evaluation plan*. Ar gael yn: https://masassets.blob.core.windows.net/fincap-cms/files/000/000/376/original/Template_Evaluation_Plan_for_financial_capability_programme.pdf [cyrchwyd 03/04/2019]
- Llywodraeth ei Mawrhydi (2018) *Integrated Communities Strategy Green Paper*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/696993/Integrated_Communities_Strategy.pdf [cyrchwyd 03/04/2019]
- Holtzhausen, S. (2001) *Triangulation as a powerful tool to strengthen the qualitative research design: The Resource-based Learning Career Preparation Programme (RBLCPP) as a case study*. Ar gael yn: <http://www.leeds.ac.uk/educol/documents/00001759.htm> [Cyrchwyd: 03/04/2019]
- Y Swyddfa Gartref (2019a) *Dangosyddion Fframwaith Integreiddio y Swyddfa Gartref 2019*. Llundain. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/home-office-indicators-of-integration-framework-2019>
- Y Swyddfa Gartref (2019b) *Pecyn Cymorth Dangosyddion Integreiddio*. Llundain: Y Swyddfa Gartref. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/home-office-indicators-of-integration-framework-2019>
- Martínez-Mesa, J., González-Chica, D.A., Duquia, R.P. *et al.* (2016) 'Sampling: how to select participants in my research study?' *Anais Brasileiros de Dermatologia*, rhif. 91(3), tt 326–330. Ar gael o: doi:10.1590/abd1806-4841.20165254 [cyrchwyd 03/04/2019]
- Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (2018) *INVOLVE: Guidance on co-producing a research project*. Ar gael yn: https://www.invo.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/Copro_Guidance_Mar18.pdf [cyrchwyd 03/04/2019]
- Taylor M., Purdue D., Wilson M. ac Wilde P. (2005) *Evaluating community projects: A practical guide*. Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael yn: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/1859354157.pdf> [cyrchwyd 03/04/2019]
- Valentine, D. et al. (2018) *How to Develop a Monitoring and Evaluation Framework*. NCVO Knowhow Ar gael yn: <https://knowhow.ncvo.org.uk/how-to/how-to-develop-a-monitoring-and-evaluation-framework> [cyrchwyd 03/04/2019]
- Vogel, I. a Stephenson, Z. (2012) *Appendix 3. Examples of Theories of Change*. DFID. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/57a08a66ed915d622c000703/Appendix_3_ToC_Examples.pdf [cyrchwyd 03/04/2019]

Atodiad 1: Cynllunio gwerthuso

Defnyddiwch y tabl hwn i gofnodi'r canlyniadau o'ch rhaglen Theori Newid ar gyfer creu cynllun gwerthuso. Gallwch gysylltu eich canlyniadau â chanlyniadau o'r Fframwaith Theori Newid ar gyfer Integreiddio sy'n berthnasol i'ch rhaglen a buddiolwyr. O'r Pecyn Cymorth Dangosyddion Integreiddio, gallwch ddefnyddio'r casgliad cwestiynau i ychwanegu dangosyddion at y drydedd res neu gwestiynau arolwg/cyfweld at y bedwaredd res. Gallwch hefyd ychwanegu unrhyw ffynonellau data nad ydynt yn y Pecyn Cymorth Dangosyddion Integreiddio, megis gwybodaeth reoli'r rhaglen.

Tabl 5: Ffynhonnell: Addaswyd o Taylor et al., 2005 a *Financial Capability*, d.d.

Eich Canlyniad Theori Newid
Theori Newid ar gyfer Dangosyddion
Canlyniadau Integreiddio
Ffynhonnell data ac amlder casglu data, cwestiynau (Pa wybodaeth sydd gennych eisoed? Pa wybodaeth ychwanegol fyddwch ei hangen?)

**Dulliau casglu data/gweithgareddau cysylltiedig
(Pa dulliau fyddwch chi'n eu defnyddio i gasglu gwybodaeth ychwanegol?)**

Sampl (Gan faint o unigolion y byddwch yn casglu data?)

**Cyfrifoldeb
(Pwy fydd yn casglu'r data hwn?)**

**Proses casglu a dadansoddi data
(Pa weithgareddau o'ch rhaglen fydd yn helpu i gyflawni canlyniadau penodol)**

Amserlen (Erbyn pryd mae angen gwneud hyn?)

Atodiad 2: Casgliad o Ddangosyddion Canlyniadau Integreiddio

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref, 2019a

Gwaith

- % sy'n cymryd rhan mewn llwybrau at waith (e.e. prentisiaethau, profiad gwaith neu gynlluniau mentora/cysgodi)
- % (sy'n gymwys/gallu gweithio) mewn gwaith cyflogedig
- % a gyflogir ar lefel briodol i sgiliau, cymwysterau a phrofiad
- % a gyflogir ar draws ystod amrywiol o sectorau cyflogaeth
- % sy'n dal mathau gwahanol o gontractau cyflogaeth (dim oriau, rhan amser; hunangyflogedig; dros dro etc.)
- % o unigolion (sy'n gymwys/gallu gweithio) sy'n defnyddio gwasanaethau mentrau dechrau busnes newydd lleol
- % sy'n ennill cyflog blynyddol yn gymesur â'r cyfartaledd cenedlaethol
- % o unigolion a/neu gartrefi sy'n sefyll ar eu traed eu hunain ac annibynnol yn economaidd
- % sy'n adrodd boddhad â'u cyflogaeth bresennol
- % mewn cyflogaeth â thâl neu waith gwirfoddol
- Canfyddiadau o gyfleoedd cyflogaeth a rhwystrau i sicrhau cyflogaeth
- % â chynlluniau ar gyfer ymddeoliad
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Addysg

- % sy'n cyflawni cyfnodau allweddol penodol ar lefel cynradd (neu gyrhaeddiad addysgol cyfwerth plant rhwng 5 ac 11 oed)
- % sy'n cyflawni pump neu ragor o raddau TGAU / Graddau Safonol ar 9-4 (A*-C) (neu gyrhaeddiad addysgol cyfwerth plant rhwng 12 ac 16 oed)
- % sy'n cyflawni dau neu ragor o gymwysterau Safon Uwch neu bas ar Lefel Uwch (neu gyrhaeddiad addysgol cyfwerth plant a phobl ifanc rhwng 17 a 18 oed)
- % o fyfyrwyr wedi eu gwahardd o'r ysgol
- % o bobl ifanc ac oedolion sy'n llwyddo i gael mynediad at addysg drydyddol
- % o unigolion sy'n cyflawni cymhwyster galwedigaethol (e.e. Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol / Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban neu gyfwerth)
- % sy'n cyflawni Diploma Mynediad at Addysg Uwch
- % o bobl ifanc ac oedolion sy'n llwyddo i fynd i'r brifysgol
- % sy'n troi eu cefnau ar y brifysgol / addysg bellach
- % o blant sy'n cymryd rhan mewn addysg feithrin
- % o blant sy'n cymryd rhan mewn clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol
- Cynrychiolaeth o amrywiaeth y boblogaeth leol mewn ysgolion (mynegai o wahaniaethau)
- Myfyrwyr yn hunangofnodi teimlad o berthyn yn yr ysgol
- % ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Tai

- % sy'n ddigartref
- % sy'n byw mewn amodau tenantiaeth sicr neu berchen-feddiannydd/diogel
- % sy'n byw mewn tai gorlawn
- % o unigolion cymwys sy'n byw mewn tai cymdeithasol
- % sy'n derbyn budd-dal tai
- % sy'n derbyn taliad tai yn ôl disgrisiwn
- Amser cyfartalog a dreulir mewn llety dros dro
- Boddhad gydag amodau tai yr adroddwyd amdano
- Boddhad gyda'r gymdogaeth yr adroddwyd amdano (e.e. diogelwch yn y gymuned, cydlyniant cymdeithasol ac argaeledd cyfleustodau angenrheidiol)
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwryw a benyw)
- % wedi cofrestru â meddyg teulu
- % wedi cofrestru â deintydd
- % wedi cofrestru ag optegydd y GIG am brawf llygaid
- % sy'n cael profion llygaid y GIG am ddim
- % sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol (drwy'r GIG lle maent ar gael) (e.e. gofal cyn-geni, gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth ar gyfer dioddefwyr trais domestig a dioddefwyr trawma)
- % sy'n defnyddio gwasanaethau ataliol (e.e. imiwneiddio, iechyd, gofal cyn-geni a sgrinio am ganser ceg y groth a'r fron, clinigau iechyd rhywiol)
- % o unigolion cymwys sy'n cael mynediad llwyddiannus at fudd-dal analluogrwydd, gofalwyr a budd-daliadau eraill
- % sy'n defnyddio gwasanaethau ymwelwyr iechyd
- % o blant a phobl sydd â mynediad at nyrsys ysgol
- Cyfraddau marwolaethau ymysg babanod
- Cyfraddau marwolaethau ymysg newydd-anedigion
- Cyfraddau marwolaethau ar enedigaeth
- Cyfraddau marwolaethau ymysg mamau
- Cyfraddau marwolaethau o achosion a ystyrir yn rhai y gellir eu hatal (bob oedran)
- % sy'n mynegi iechyd a lles hunanraddedig da (dylai hwn fod ar gyfer plant a phobl ifanc a phobl 18+)
- Ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd i bobl hŷn
- % sy'n adrodd eu bod yn trafod problemau iechyd meddwl â'u meddygon teulu
- % sy'n cael mynediad at wasanaethau dehongli neu gyfieithu yn ystod apwyntiadau meddygol
- % sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau Gwella Mynediad at Therapyddion Seicolegol (IAPT) y GIG
- % sy'n defnyddio gwasanaethau IAPT y GIG
- % sy'n cael eu gweld gan therapyddion ar gyfer gofal yn sgil trawma a ddarperir gan sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol (VCS)
- % na wnaeth fynychu apwyntiadau ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned i bobl â phroblemau iechyd meddwl
- Nifer y bobl a gafodd eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i broblemau iechyd corfforol neu feddyliol
- % o bobl ifanc dan 18 oed a dderbyniwyd i wardiau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMH) arbenigol y GIG o ganlyniad i broblemau seiciatrig
- % (18+) sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol
- Cyfanswm y gwylau cleifion mewnol seiciatrig fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Nifer o ddyddiau a dreulir yn yr ysbyty
- % sy'n cael eu haillderbyn i'r ysbyty o fewn 30 diwrnod i gael eu rhyddhau
- % o unigolion sy'n deall sut i gael gafael ar iechyd a gofal cymdeithasol (cael gafael ar wasanaethau yn ymwneud ag anabledd, trais domestig, diogelwch, eiriolaeth sy'n sensitif i ddiwylliant etc.)
- % mewn cartrefi gofal preswyl neu nyrsio
- % o unigolion sy'n ymwybodol o fesurau iechyd ataliol (e.e. deiet, ymarfer corff, rhoi'r gorau i ysmegu, camddefnyddio sylweddau)

- % o unigolion sy'n adrodd boddhad â darpariaeth gwasanaethau
- Cyfraddau marwolaethau o bob achos ymysg pobl o dan 75 oed (gwryw a benyw)
- % a ddywedodd eu bod wedi cael profiad da wrth wneud apwyntiad â'r meddyg teulu
- % a lwyddodd i gael apwyntiad deintyddol gyda'r GIG o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf
- % sy'n adrodd lefelau uchel o hapusrwydd a boddhad bywyd
- % o bobl ifanc 15 oed sy'n gwneud ymarfer corff am o leiaf un awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos
- % o oedolion sy'n gwneud unrhyw fath o gerdded, o leiaf pum gwaith yr wythnos
- Llesiant ymysg pobl ifanc 15 oed: sgôr gymedrig llesiant pobl ifanc 15 oed
- Nifer y bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i gyflyrau iechyd meddwl: cyfradd fesul 100,000
- % sydd ar gofrestr meddyg teulu am broblemau iechyd meddwl
- Nifer y cleientiaid iechyd meddwl gofal cymdeithasol sydd mewn cartrefi gofal preswyl neu nyrsio (18-64 oed): cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth
- % o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n dweud bod gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi gwneud iddynt deimlo'n saff a diogel
- Nifer yr achosion o TB (cyfartaledd dros dair blynedd)
- Digwyddiadau a throseddau yn gysylltiedig â thrais domestig a gofnodwyd gan yr heddlu, cyfraddau bras fesul 1,000
- % o ddefnyddwyr gofal cymdeithasol oedolion sy'n cael gymaint o gyswllt cymdeithasol ag yr hoffent
- Blynyddoedd bywyd a gollwyd o ganlyniad i hunanladdiad
- Blynyddoedd bywyd a gollwyd o ganlyniad i gyflyrau yn gysylltiedig ag alcohol
- Blynyddoedd bywyd posibl a gollwyd i afiechydon yn gysylltiedig ag ysmegu
- % sy'n ddigartref
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Hamdden

- % sy'n aelodau o'r llyfrgell leol
- % sy'n aelodau o gyfleusterau chwaraeon lleol
- % sy'n cymryd rhan mewn grwpiau/gweithgareddau cymdeithasol a hamdden lleol
- % sy'n adrodd eu bod wedi cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd hamdden a ffafir ganddynt yn ystod y mis diwethaf
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Cysylltiadau cymdeithasol

- % sy'n adrodd bod ganddynt rywun o'r gymuned i siarad â nhw pan maent angen cymorth
- % sy'n gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddatblygu cysylltiadau â pherthnasoedd a ffrindiau, a chadw mewn cysylltiad â nhw
- % sy'n adrodd bod ganddynt ffrindiau â chefnidiroedd tebyg
- % sy'n cyfrannu at sefydliad cymunedol neu'n rhan o gymdeithas neu grŵp crefyddol
- % o bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu ymarfer eu ffydd yn rhwydd
- % sy'n mynegi ymdeimlad o 'berthyn' i gymdogaeth neu ardal leol

Pontydd cymdeithasol

- % sy'n cymryd rhan mewn clybiau ieuencid, cyfleusterau gofal plant, clybiau chwaraeon, undebau llafur a sefydliadau eraill
- % sy'n mynychu gofodau cymunedol (gan gynnwys manau addoli) lle maent yn cymysgu â phobl o gefndiroedd gwahanol
- % o bobl leol sy'n adrodd bod ganddynt ffrindiau o gefndiroedd gwahanol
- % o bobl leol (cymunedau ar fin cyrraedd ac sy'n derbyn) sy'n adrodd eu bod yn cymdeithasu gyda phobl o wahanol gefndiroedd ethnig a chefnidiroedd eraill mewn sefyllfaoedd bob dydd
- % sy'n hyderus i ofyn i gymdogion o bob cefndir am help
- % sy'n mynegi ymdeimlad o 'berthyn' i gymdogaeth neu ardal leol
- % sydd wedi gwirfoddoli/helpu yn y gymuned yn ystod y mis diwethaf

- % sy'n adrodd bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal
- Achosion o wahaniaethu ymysg preswylwyr (yn ôl ethnigrwydd) yn yr ardal leol

- % sy'n cynnal iaith frodorol ynghyd â dysgu iaith newydd
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Cysylltiadau cymdeithasol

- % sy'n ymgymryd â swyddi neu swyddogaethau cynrychioladol â sefydliadau neu bwyllgorau cymunedol lleol (e.e. byrddau grwpiau chwarae, pwyllgorau PTA, grwpiau cleifion, cymdeithas trigolion lleol, Gwarchod Cymdogaeth)
- % sydd wedi cofrestru i bleidleisio
- Cynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ym mhleidiau gwleidyddol y DU
- % sy'n weithredol ar bwyllgorau PTA ysgolion, cyrff anllywodraethol neu gyrff llywodraethol
- % sy'n defnyddio gwasanaethau statudol ac eraill
- % sy'n ymwybodol o weithdrefnau ar gyfer cwyno am nwyddau a gwasanaethau
- % mewn swyddi arwain/rheoli
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Iaith a chyfathrebu

- Cyfraddau llythrennedd ymysg oedolion
- % sy'n cymryd rhan mewn dosbarthiadau ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) neu'n derbyn addysg iaith Saesneg i oedolion gyfatebol
- % sy'n mynychu'n rheolaidd dosbarthiadau ESOL neu'n derbyn addysg iaith Saesneg i oedolion gyfatebol
- % sy'n mynd ymlaen i astudio ESOL Lefel Mynediad 3 sy'n ofynnol i ymgeisio am ddinasyddiaeth Brydeinig (B1 ar y Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin) o fewn dwy flynedd i dderbyn statws
- % sy'n adrodd boddhad gyda darpariaeth ESOL yn lleol (neu gyfatebol)
- % o bobl nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt sy'n adrodd eu bod yn gallu cynnal sgwrs syml gyda siaradwr iaith leol (e.e. cymydog)
- % sy'n cymryd rhan mewn mentrau i ddarparu ymarfer iaith y tu allan i ddosbarthiadau (e.e. drwy weithgareddau cymdeithasol, gyda mentoriaid neu drwy wirfoddoli)

Diwylliant

- % sy'n ymgysylltu â sefydliadau a digwyddiadau diwylliannol y DU (e.e. amgueddfeydd, gwyliau lleol, dathliadau diwylliannol)
- % sy'n adrodd bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal
- % sy'n adrodd eu bod yn gwybod am normau a disgwyliadau cymdeithasol lleol ac yn gyfforddus â nhw
- % sy'n adrodd eu bod yn deall diwylliannau ac ymddygiadau sefydliadol y DU (e.e. yn eu gwaith neu drwy ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus)
- % sy'n deall, ac yn defnyddio Cyfraith y DU sy'n berthnasol i fywyd bob dydd (e.e. cyfrifoldebau rhianta, hawliau cyflogaeth ac eiddo, ymddygiad mewn mannau cyhoeddus)
- % sy'n ymwybodol o, ac yn dilyn cyfraith y DU parthed bywyd ac arferion beunyddiol nad ydynt yn gyfreithiol yn y DU (e.e. yfed a gyrru neu anffurfio organau rhywiol merched (FGM))
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Sgiliau digidol

- % sy'n adrodd hyder wrth ddefnyddio technoleg i gael mynediad at wasanaethau digidol
- % sy'n adrodd hyder wrth ddefnyddio technoleg i gyfathrebu gyda ffrindiau neu deulu (h.y. drwy'r we)
- % sy'n manteisio ar gyrsiau hyfforddiant digidol
- % sydd â mynediad personol i'r rhyngwrwyd (gan gynnwys data symudol)
- % dros 16 oed sydd â ffôn clyfar neu gyfrifiadur
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Diogelwch

- % sy'n adrodd eu bod yn ymddiried yn yr heddlu
- % o ferched sy'n adrodd trais rhywiol a/neu drais domestig
- % sy'n adrodd teimlo'n ofnus neu'n ansicr
- Hunangofnodi teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn ystod y dydd / nos
- % sy'n adrodd profiadau o aflonyddwch neu ddigwyddiadau hiliol, diwylliannol neu grefyddol
- % sy'n adrodd troseddau casineb
- % o blant oed ysgol sy'n adrodd am brofiadau o ddigwyddiadau bwlio a cham-drin hiliol mewn ysgolion
- % sydd wedi cael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu
- % sydd wedi cael eu harestio a/neu gyhuddo o droseddu
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Sefydlogrwydd

- % sy'n adrodd preswyliaeth sefydlog (y gallant aros) yn eu tŷ presennol
- % o blant sy'n symud ysgol
- % sy'n cael mynediad at gyflogaeth barhaol
- % sy'n adrodd boddhad â'r ardal leol
- % sydd â statws mewnfudo diogel (e.e. caniatâd diderfyn i aros)
- Nifer o deuluoedd sy'n cael eu hailuno drwy weithdrefnau aduno teuluoedd
- % sy'n cael dinasyddiaeth
- % sy'n adrodd cynefindra â'r bobl leol a chymdogion ac yn ymddiried ynddynt
- % sy'n adrodd bwriad i aros yn eu cymdogaeth am dair blynedd neu fwy
- % sy'n mynegi ymdeimlad o 'berthyn' i gymdogaeth neu ardal leol
- % sy'n adrodd ansicrwydd ariannol
- % sy'n adrodd cynhwysiant ariannol

Hawliau a chyfrifoldebau

- % sy'n manteisio ar gyngor cyfreithiol fforddiadwy
- % sy'n manteisio ar gyngor ar fudd-daliadau lles
- % sy'n ymgeisio am ddinasyddiaeth
- % sydd wedi cael caniatâd i gofrestru i bleidleisio
- % sy'n cymryd rhan mewn fforymau dinesig a gwleidyddol ac ymgynghoriadau cyhoeddus
- % sy'n deall, ac yn defnyddio Cyfraith y DU a chyfrifoldebau cymdeithasol (e.e. cyfrifoldebau rhianta, hawliau cyflogaeth ac eiddo, ymddygiad mewn mannau cyhoeddus)
- % sy'n adrodd ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at gymdeithas leol a'r Deyrnas Unedig
- % sy'n adrodd ymdeimlad o gydraddoldeb wrth gael mynediad at wasanaethau a hawliadau
- % o'r boblogaeth gyffredinol sy'n adrodd gwybodaeth am ddeddfau gwrthwahaniaethu
- % sy'n adrodd gwybodaeth am eu hawl i wasanaethau dehongli mewn gwasanaethau cyhoeddus (ar draws parthau integreiddio)
- Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cefnogaeth a llwybrau at gyfranogiad allweddol

Atodiad 3: Trosolwg o'r ffynonellau data ar gael

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref, 2019b

Ffynhonnell data	Blwyddyn/Amllder casglu data	Dadgyfuno
Arolwg Pobl Gweithredol	Blynyddol (2016-wedi terfynu)	Oedran, Ethnigrwydd, Rhywedd
Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion 2014	2014	Ethnigrwydd
Arolwg Poblogaeth Blynyddol (Arolwg o'r Llafurlu)	Blynyddol	Statws Economaidd yn bennaf, ond hefyd: Oedran, Rhyw, Crefydd, Ethnigrwydd, Gwlad Enedigol, Cenedligrwydd
Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain	Blynyddol	Oedran, Statws Cyflogaeth, Statws Priodasol, Rhyw
Arolwg Dinasyddiaeth (2011-wedi terfynu)	Blynyddol (2011-wedi terfynu)	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd
Arolwg Bywyd Cymunedol	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd
Arolwg Trosedd i Gymru a Lloegr	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd, Statws Priodasol, Cenedligrwydd, Gwlad Enedigol
Arolwg Trosedd i Gymru a Lloegr (10-15 oed)	Blynyddol	Oed, Rhyw
Arolwg Tai Lloegr	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd
Astudiaeth Etholiad Lleiafrif Ethnig Prydain	2010	Oed, Rhyw, Ethnigrwydd, Crefydd, Cenedligrwydd, Gwlad Enedigol
Eurobarometer	2006	Oed, Rhyw
Arolwg Cymdeithasol Ewrop	Bob dwy flynedd	Oedran, Rhyw, Dinasyddiaeth, Gwlad Enedigol (a mwy)
Arolwg Adnoddau Teuluol	Blynyddol	Ethnigrwydd

Arolwg Cleifion Meddygon Teulu	Dibynnol ar y dangosydd	Rhanbarth, Ethnigrwydd
Arolwg o'r Llafurlu	Bob chwarter	Statws Economaidd yn bennaf, ond hefyd: Oedran, Rhyw, Crefydd, Ethnigrwydd, Gwlad Enedigol, Cenedligrwydd
Arolwg Cenedlaethol Cymru	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd
Arolwg Life and Times Gogledd Iwerddon 2017	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd, Crefydd
Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol Personol Gofal Cymdeithasol Oedolion, Lloegr	Blynyddol	Rhanbarth
Tlodi a Gwaharddiad Cymdeithasol yn y DU: Arolwg Safonau Byw y DU	1999, 2002, 2012	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd, Iaith, Crefydd
Arolwg Agweddau Cymdeithasol yr Alban	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd
Arolwg Sgiliau ar gyfer Byw	2011	Oedran, Ethnigrwydd, Crefydd, Rhywedd, Mynegai Amddifadedd Lluosog
Arolwg Ffoaduriaid Newydd yn y Deyrnas Unedig	2005-2009	Gwlad Tarddiad, Rhyw, Amser Ers Penderfynu Ceisio Lloches
Arolwg Cymryd Rhan	Blynyddol	Oed, Rhyw, Statws Economaidd, Ethnigrwydd
Arolwg Asesu Rhaglen Myfyrwyr Rhyngwladol	Bob tair blynedd	Oed, Rhyw
Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS) (Arolwg What About YOUth (WAY))	2014-2015	Rhanbarth
Arolwg Deall Cymdeithas	Blynyddol	Oed, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd, Cenedligrwydd, Gwlad Enedigol
Arolwg What About YOUth (WAY)	2014-2015	Rhanbarth

Ystadegau	<i>Bydd blwyddyn/amlder casglu data yn amrywio'n ôl ystadegau unigol</i>	<i>Bydd amrywiadau wedi eu dadgyfuno yn amrywio'n ôl ystadegau unigol</i>
Mynediad at Addysg Uwch	2016-2017	Rhyw, Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd
Yr Adran Addysg	Blynyddol	Ethnigrwydd, Iaith Gyntaf, Rhyw, Prydau Bwyd Ysgol Am Ddim, Grŵp Blwyddyn
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Dibynnol ar y dangosydd	Ethnigrwydd, Oed, Rhyw
Adroddiad Synthesis EMN ar gyfer yr Astudiaeth Ffocws EMN 2016	2017	Rhywedd
Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)	Blynyddol	Oed, Sefydliad
Y Swyddfa Gartref - Gov.uk	Dibynnol ar y dangosydd	Ethnigrwydd, Oed, Rhyw, Gwlad Cenedligrwydd, Cenedligrwydd Blaenorol
Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Dibynnol ar y dangosydd	Ethnigrwydd, Oedran, Incwm, Rhanbarth
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Ethnigrwydd
NHS Digital	Blynyddol	Oedran, Rhyw, Grŵp Ethnig, Mynegai Amddifadedd Lluosog, Grŵp Comisiynu Clinigol
OECD	2016	Yn ôl gwlad
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Dibynnol ar y dangosydd	Oedran, Rhyw, Anabledd, Rhanbarth, Crefydd, Mynegai Amddifadedd Lluosog
Ofqual	Bob chwarter	Dim
Iechyd Cyhoeddus Lloegr	Dibynnol ar y dangosydd	Rhanbarth, Rhywedd
UCAS	Blynyddol	Ethnigrwydd, Statws Cymdeithasol-Economaidd
Sefydliad Iechyd y Byd	2014	Yn ôl gwlad

Ffynonellau Eraill		
Adroddiad Croeso i Ffoaduriaid APPG	2005-2006 / 2014-2015	Dim
BIS: Gwerthusiad o Effaith Dysgu yn Is na Lefel 2	2013	Dim
England Shelter	2014	Dim
Prosiect Aelodau Pleidiau a ariennir gan ESRC	Amherthnasol	Oedran, Dosbarth, Ethnigrwydd
Astudiaeth Dichonoldeb ar gyfer arolwg i ymfudwyr	2011	Oedran, Rhyw, Statws Priodasol, Ethnigrwydd, Cenedligrwydd
PECYN CYMORTH OECD/INFE	2015	Ethnigrwydd, Rhywedd
Start Up Loans Company	Ad hoc	Ethnigrwydd



Swyddfa Gartref



Cyd-ariannwyd y cyhoeddiad hwn gan
Gronfa Lloches, Ymfudo ac
Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd.



Queen Margaret University
INSTITUTE FOR GLOBAL HEALTH
AND DEVELOPMENT



UNIVERSITY OF
BIRMINGHAM

US
UNIVERSITY
OF SUSSEX

U
Ulster
University